



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 824 (Cy.87)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Cyllido Ysgolion
(Cymru) 2010**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cyllidebau AALI, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003, Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004 a Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol AALI) (Cymru) 2004 mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill 2011. Maent yn darparu ar gyfer cyllido ysgolion a gynhelir yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd ariannol hynny.

Mae Rhan 1 yn cynnwys y darpariaethau cyflwyno, dehongli a dirymu.

Mae Rhan 2 yn ymwneud â chyllideb AALI, y gyllideb ysgolion a'r gyllideb ysgolion unigol.

Mae rheoliad 4 ac Atodlen 1 yn nodi'r gwariant sy'n cyfansoddi cyllideb AALI.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad cychwynnol ar y gyllideb ysgolion cyn 14 Chwefror cyn dechrau cyfnod cyllido. Mae rheoliad 6 yn diffinio'r gyllideb ysgolion. Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyllideb ysgolion unigol gael ei phenderfynu cyn 14 Chwefror yn union cyn cyfnod cyllido. Cyfnod cyllido yw blwyddyn ariannol. Diffinnir y gyllideb ysgolion unigol yn rheoliad 7 ac Atodlen 2.

Mae Rhan 3 yn ymwneud â chyfrannau ysgolion o'r gyllideb. Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol bod y gyllideb ysgolion unigol i'w dyrannu fel cyfrannau o'r gyllideb i ysgolion. Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol bod penderfyniad cychwynnol ar swm cyfran ysgol o'r gyllideb yn cael ei wneud erbyn diwedd y mis Mawrth cyn cyfnod cyllido a bod yr awdurdod yn hysbysu cyrff llywodraethu ysgolion o swm eu

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 824 (W.87)

EDUCATION, WALES

**The School Funding (Wales)
Regulations 2010**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations revoke and replace the LEA Budget, Schools Budget and Individual Schools Budget (Wales) Regulations 2003, the Schools Budget Shares (Wales) Regulations 2004 and the Education (LEA Financial Schemes) (Wales) Regulations 2004 in relation to financial years that commence on or after 1 April 2011. They make provision for the funding of maintained schools in Wales for those financial years.

Part 1 contains the introductory, interpretation and revocation provisions.

Part 2 deals with the LEA budget, the schools budget and the individual schools budget.

Regulation 4 and Schedule 1 set out the expenditure that constitutes the LEA budget.

Regulation 5 requires the local authority to make an initial determination of the schools budget before 14 February preceding a funding period. Regulation 6 defines the schools budget. Regulation 7 requires the individual schools budget to be determined before 14 February immediately preceding a funding period. A funding period is a financial year. The individual schools budget is defined in regulation 7 and Schedule 2.

Part 3 deals with schools' budget shares. Regulation 8 requires the individual schools budget to be allocated as budget shares to schools. Regulation 9 requires an initial determination of the amount of a school's budget share to be made by the end of the March preceding a funding period and for the authority to notify schools' governing bodies of the amount of their budget shares together with information about how the budget share

cyfrannau o'r gyllideb ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut y cyfrifwyd y gyfran o'r gyllideb ac amcangyfrifon o'r cyfrannau o'r gyllideb ar gyfer y ddau gyfnod cyllido sy'n dilyn.

Mae rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod benderfynu fformiwla ar gyfer y cyfrannau o'r gyllideb. Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol bod ymgynghori ar unrhyw newidiadau a wneir i'r fformiwla ers y cyfnod cyllido blaenorol.

Mae rheoliad 12 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyllideb ddirprwyedig ysgol newydd.

Mae rheoliadau 13 i 23 ac Atodlen 3 yn nodi'r ffactorau a'r meini prawf i'w cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu cyfrannau o'r gyllideb.

Mae rheoliad 24 yn caniatáu i awdurdod lleol ailbenderfynu cyfran ysgol o'r gyllideb er mwyn cywiro gwallau, ac mae rheoliad 25 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gymeradwyo trefniadau amgen i benderfynu cyfrannau o'r gyllideb.

Mae Rhan 4 yn ymwneud â chynlluniau ariannol yr awdurdod lleol. Mae rheoliad 26 ac Atodlen 4 yn pennu'r materion y mae'n rhaid ymwneud â hwy mewn cynlluniau. Mae rhain yn cynnwys darpariaeth newydd a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol gyfarwyddo cyrff llywodraethu sut i wario gwarged sy'n £50,000 neu'n fwy yn achos ysgol gynradd a £100,000 neu'n fwy yn achos ysgol uwchradd neu ysgol arbennig, ac os ydynt yn methu â gwneud hynny, adennill y gwargedau hynny a'u defnyddio fel rhan o'u cyllideb ysgolion.

Mae rheoliad 27 yn nodi sut y mae rhoi cyhoeddusrwydd i gynlluniau diwygiedig ac mae rheoliad 28 yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw ddiwygiadau i'w cymeradwyo gan y fforwm ysgolion neu gan Weinidogion Cymru.

was calculated and estimates of the budget shares for the following two funding periods.

Regulation 10 requires an authority to determine a formula for the budget shares. Regulation 11 requires consultation on any changes made to the formula since the preceding funding period.

Regulation 12 makes provision for the delegated budget of a new school.

Regulations 13 to 23 and Schedule 3 set out the factors and criteria to be taken into account in determining budget shares.

Regulation 24 allows a local authority to redetermine a school's budget share in order to correct errors, and regulation 25 allows the Welsh Ministers to approve alternative arrangements to determine budget shares.

Part 4 deals with local authorities' financial schemes. Regulation 26 and Schedule 4 specify the matters that must be dealt with in schemes. These include a new provision which will allow local authorities to direct governing bodies how to spend a surplus of £50,000 or more in the case of a primary school and £100,000 or more in the case of a secondary school or a special school, and if they fail to do so, to recover those surpluses and apply them as part of their schools budget.

Regulation 27 sets out how revised schemes are to be publicised and regulation 28 requires any revisions to be approved by the schools forum or the Welsh Ministers.

2010 Rhif 824 (Cy.87)

2010 No. 824 (W.87)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Cyllido Ysgolion
(Cymru) 2010**

**The School Funding (Wales)
Regulations 2010**

Gwnaed 16 Mawrth 2010

Made 16 March 2010

Yn dod i rym 1 Medi 2010

Coming into force 1 September 2010

TREFN Y RHEOLIADAU

ARRANGEMENT OF REGULATIONS

RHAN 1 – Cyflwyniad

PART 1 – Introduction

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dirymu
3. Dehongli

1. Title, commencement and application
2. Revocation
3. Interpretation

RHAN 2 – Cyllideb AALI, Cyllideb Ysgolion a
Chyllideb Ysgolion Unigol

PART 2 – LEA Budget, Schools Budget, Individual
Schools Budget

4. Cyllideb AALI
5. Penderfyniad cychwynnol cyllideb ysgolion
6. Cyllideb ysgolion
7. Cyllideb ysgolion unigol

4. LEA Budget
5. Initial determination of schools budget
6. Schools budget
7. Individual schools budget

RHAN 3 – Cyfrannau ysgolion o'r gyllideb

PART 3 – Schools' budget shares

8. Dyrannu cyllideb ysgolion unigol
9. Amseru a hysbysu penderfyniad cychwynnol ar gyfrannau ysgolion o'r gyllideb
10. Y fformiwla ar gyfer penderfynu cyfrannau o'r gyllideb
11. Ymgynghori
12. Ysgolion newydd
13. Niferoedd disgyblion
14. Niferoedd disgyblion : Cofrestru Deuol
15. Lleoedd
16. Ysgolion o ddisgrifiad penodol
17. Cyllid gwahaniaethol
18. Ffactorau neu feini prawf ychwanegol
19. Cyllid ar gyfer disgyblion dros oedran ysgol gorfodol
20. Ad-drefnu ysgol
21. Addasu cyfran o'r gyllideb
22. Disgyblion a waharddwyd neu a dderbyniwyd ar ôl gwaharddiad

8. Allocation of individual schools budget
9. Timing and notification of initial determination of schools' budget shares
10. Formula for determination of budget shares
11. Consultation
12. New Schools
13. Pupil numbers
14. Pupil Numbers: Dual Registration
15. Places
16. Schools of a particular description
17. Differential funding
18. Additional factors or criteria
19. Funding for pupils over compulsory school age
20. School re-organisation
21. Budget share adjustments
22. Pupils excluded or admitted following an exclusion

23. Canran o gyllid "sy'n cyfeirio at niferoedd disgyblion"
24. Cywiro gwallau
25. Trefniadau ychwanegol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru

RHAN 4 – Cynlluniau Ariannol

26. Y cynnwys sy'n ofynnol mewn cynlluniau
27. Dull cyhoeddi
28. Cymeradwyaeth gan y fforwm ysgolion neu Weinidogion Cymru o gynigion i ddiwygio cynlluniau

ATODLEN 1

Dosbarthiadau neu Ddisgrifiadau o Wariant Cynlluniedig a Ragnodwyd at Ddibenion Cyllideb AALI yr Awdurdod Lleol

1. Anghenion dysgu ychwanegol
2. Iechyd ac amddiffyn plant
3. Gwelliannau mewn ysgolion
4. Mynediad i addysg
5. Addysg, hyfforddiant a gwasanaethau i bobl ifanc ac oedolion
6. Rheoli strategol

ATODLEN 2

Dosbarthiadau neu Ddisgrifiadau o Wariant Cynlluniedig y ceir ei Ddidynnu o Gyllideb Ysgolion Awdurdod Lleol

1. Gwariant ar gyfer cynnal grantiau
2. Anghenion dysgu ychwanegol
3. Staff
4. Gwariant arall

ATODLEN 3

Ffactorau neu Feini Prawf Ychwanegol y caniateir eu Cymryd i Ystyriaeth mewn Fformiwla Awdurdod Lleol o dan Reoliad 18

ATODLEN 4

Cynnwys y Cynlluniau Ariannol

23. Percentage of "pupil-led" funding
24. Correction of errors
25. Additional arrangements approved by the Welsh Ministers

PART 4 – Financial Schemes

26. Required content of schemes
27. Manner of publication
28. Approval by the schools forum or the Welsh Ministers of proposals to revise schemes

SCHEDULE 1

Classes or Descriptions of Planned Expenditure Prescribed for the Purposes of the LEA Budget of a Local Authority

1. Additional learning needs
2. Health and child protection
3. School improvement
4. Access to education
5. Education, training and services for young persons and adults
6. Strategic management

SCHEDULE 2

Classes or Descriptions of Planned Expenditure which may be Deducted from the Schools Budget of a Local Authority

1. Expenditure to support grants
2. Additional learning needs
3. Staff
4. Other expenditure

SCHEDULE 3

Additional Factors or Criteria which may be Taken into Account in a Local Authority's Formula under Regulation 18

SCHEDULE 4

Content of Financial Schemes

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru(1) gan adrannau 45A, 45AC, 47, 48, 49 a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraffau 1(7) a 2B o Atodlen 14 iddi(2) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(3), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Cafodd drafft o'r Rheoliadau hyn eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddo(4).

RHAN 1 – Cyflwyniad

Enwi, cychwyn a chymhwys

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 1 Medi 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill 2011.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales(1) by sections 45A, 45AC, 47, 48, 49 and 138(7) and (8) of, and paragraphs 1(7) and 2B of Schedule 14 to, the School Standards and Framework Act 1998(2), and now vested in them(3), make the following Regulations.

A draft of these Regulations has been laid before, and been approved by resolution of, the National Assembly for Wales(4).

PART 1 – Introduction

Title, commencement and application

1.–(1) The title of these Regulations is the School Funding (Wales) Regulations 2010, and they come into force on 1 September 2010.

(2) These Regulations apply in relation to financial years beginning on or after 1 April 2011.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

(1) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 45A, 45AC, 47, 48, 49 a 138 ac Atodlen 14 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, adran 211 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32), adran 119 o Ddeddf Addysg 2005 (p.18) ac adran 180 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40).

(2) 1998 p.31. Mewnoswyd adran 45A gan adran 41(1) o Ddeddf Addysg 2002 a'i diwygio gan baragraff 3 o Atodlen 16 i Ddeddf Addysg 2005. Mewnoswyd adran 45AC gan baragraff 4 o Atodlen 16 i Ddeddf Addysg 2005. Diwygiwyd adran 47 gan baragraff 6 o Atodlen 16 i Ddeddf Addysg 2005. Diwygiwyd adran 48 gan adran 40 o Ddeddf Addysg 2002 a pharagraff 2 o Atodlen 3 iddi, gan adran 117 o Ddeddf Addysg 2005 a pharagraff 7 o Atodlen 18 iddi a pharagraff 3 o Atodlen 5 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Diwygiwyd adran 49 gan baragraff 100 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 a chan baragraff 4 o Atodlen 5 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Amnewidiwyd paragraffau 1(7) a 2B o Atodlen 14 gan baragraff 5 o Atodlen 5 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 142(1).

(3) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(4) Yn unol â pharagraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac adran 138(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i diwygiwyd gan baragraff 8 o Atodlen 16 i Ddeddf Addysg 2005.

(1) Functions of the Secretary of State under sections 45A, 45AC, 47, 48, 49 and 138 and Schedule 14 were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672, section 211 of the Education Act 2002 (c.32), section 119 of the Education Act 2005 (c.18) and section 180 of the Education and Inspections Act 2006 (c.40).

(2) 1998 c.31. Section 45A was inserted by section 41(1) of the Education Act 2002 and amended by paragraph 3 of Schedule 16 to the Education Act 2005. Section 45AC was inserted by paragraph 4 of Schedule 16 to the Education Act 2005. Section 47 was amended by paragraph 6 of Schedule 16 to the Education Act 2005. Section 48 was amended by section 40 of, and paragraph 2 of Schedule 3 to, the Education Act 2002, by section 117 of, and paragraph 7 of Schedule 18 to, the Education Act 2005 and by paragraph 3 of Schedule 5 to the Education and Inspections Act 2006. Section 49 was amended by paragraph 100 of Schedule 21 to the Education Act 2002 and by paragraph 4 of Schedule 5 to the Education and Inspections Act 2006. Paragraphs 1(7) and 2B of Schedule 14 were substituted by paragraph 5 of Schedule 5 to the Education and Inspections Act 2006. For the meaning of "prescribed" and "regulations" see section 142(1).

(3) By virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(4) In accordance with paragraph 34 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 and section 138(5) of the School Standards and Framework Act 1998 as amended by paragraph 8 of Schedule 16 to the Education Act 2005.

Dirymu

2. Dirymir Rheoliadau Cyllidebau AALI, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003(1), Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004(2) a Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol AALI) (Cymru) 2004(3) mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill 2011.

Dehongli

3.–(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw awdurdod addysg lleol yng Nghymru;

ystyr "cyfnod cyllido" ("*funding period*") yw blwyddyn ariannol;

ystyr "y Cynllun Plant a Phobl Ifanc" ("*the Children and Young People's Plan*") yw cynllun sy'n ofynnol o dan reoliadau a wneir o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004(4);

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(5);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(6);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000(7);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(8);

ystyr "dosbarth meithrin" ("*nursery class*") yw dosbarth sy'n cael addysg lawnamser neu ran-amser sy'n addas yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol, ysgol arbennig sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir.

Revocation

2. The LEA Budget, Schools Budget, and Individual Schools Budget (Wales) Regulations 2003(1), the Schools Budget Shares (Wales) Regulations 2004(2), and the Education (LEA Financial Schemes) (Wales) Regulations 2004(3) are revoked in relation to financial years beginning on or after 1 April 2011.

Interpretation

3.–(1) In these Regulations–

"the 1996 Act" ("*Deddf 1996*") means the Education Act 1996(4);

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998(5);

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Learning and Skills Act 2000(6);

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002(7);

"the Children and Young People's Plan" ("*y Cynllun Plant a Phobl Ifanc*") means a plan required under regulations made under section 26 of the Children Act 2004(8);

"funding period" ("*cyfnod cyllido*") means a financial year;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means a local education authority in Wales;

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") means a community, or foundation or voluntary school or a community or foundation special school or a maintained nursery school;

"nursery class" ("*dosbarth meithrin*") means a class undergoing full time or part time education wholly or mainly suitable for children who have not attained compulsory school age.

(1) O.S. 2003/3118 (Cy.296) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/696, 2005/2913 a 2005/3238.

(2) O.S. 2004/2506 (Cy.224) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2913, 2005/3238.

(3) O.S. 2004/2507 (Cy. 225).

(4) 2004 p.31. *Gweler* Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007, O.S. 2007/2316 (Cy.187).

(5) 1996 p.56.

(6) 1998 p.31.

(7) 2000 p.21.

(8) 2002 p.32.

(1) S.I. 2003/3118 (W.296) as amended by S.I. 2004/696, 2005/2913 and 2005/3238.

(2) S.I. 2004/2506 (W.224) as amended by S.I. 2005/2913, 2005/3238.

(3) S.I. 2004/2507 (W. 225).

(4) 1996 c.56.

(5) 1998 c.31.

(6) 2000 c.21.

(7) 2002 c.32.

(8) 2004 c.31. *See* the Children and Young People's Plan (Wales) Regulations 2007, S.I. 2007/2316 (W.187).

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad (sut bynnag y mae wedi'i eirio) at ysgol feithrin a gynhelir, ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig, yn cynnwys ysgol newydd (o fewn ystyr adran 72(3) o Ddeddf 1998) a fydd, ar ôl gweithredu cynigion ar gyfer sefydlu'r ysgol o dan unrhyw ddeddfiad, yn ysgol o'r fath ac yn un a chanddi gorff llywodraethu dros dro.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at gorff llywodraethu yn cynnwys corff llywodraethu dros dro ar ysgol newydd sy'n dod o fewn paragraff (2).

(4) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at ysgol gynradd neu ysgol uwchradd yn golygu ysgol gynradd neu ysgol uwchradd sydd (neu a fydd) yn ysgol gymunedol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol.

(5) Yn y Rheoliadau hyn nid yw cyfeiriad (sut bynnag y mae wedi'i eirio) at ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol yn cynnwys ysgolion nad ydynt yn ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir ym mharagraff (1).

(6) Yn y Rheoliadau hyn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at wariant yn gyfeiriadau at y gwariant hwnnw yn net o—

- (a) holl grantiau penodedig perthnasol;
- (b) holl ffioedd, taliadau ac incwm perthnasol; ac
- (c) cyllid a dderbynnir gan Weinidogion Cymru o ran taliad unedol cynllun PFI.

(7) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at grant penodedig yn gyfeiriad at unrhyw grant a delir i awdurdod lleol o dan amodau sy'n gosod cyfyngiadau ar ddibenion penodol yr awdurdod y caniateir defnyddio'r grant ond nid yw'n cynnwys—

- (a) unrhyw grant a wneir gan Weinidogion Cymru o ran cyllido chweched dosbarth; neu
- (b) unrhyw grant penodedig a ddefnyddir i gefnogi gwariant drwy gyllideb ysgolion unigol.

(8) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at daliad unedol cynllun PFI yn gyfeiriad at daliad sy'n daladwy i awdurdod lleol o dan drafodiad ariannol preifat.

(9) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at drafodiad ariannol preifat yn gyfeiriad at drafodiad fel y'i diffinnir gan reoliad 16 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 1997(1).

(10) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at wariant cyfalaf yn golygu gwariant y mae awdurdod lleol yn bwriadu ei gyfalafu yn eu cyfrifon yn unol ag arferion priodol sef yr arferion cyfrifyddu hynny—

(2) In these Regulations a reference (however framed) to a maintained nursery school, a community, foundation or voluntary school or community or foundation special school includes a new school (within the meaning of section 72(3) of the 1998 Act) which on implementation of proposals for the establishment of the school under any enactment will be such a school and which has a temporary governing body.

(3) In these Regulations a reference to a governing body includes the temporary governing body of a new school falling within paragraph (2).

(4) In these Regulations a reference to a primary or secondary school means a primary or a secondary school which is (or will be) a community, foundation or voluntary school.

(5) In these Regulations a reference (however framed) to schools maintained by a local authority does not include schools which are not maintained schools as defined in paragraph (1).

(6) In these Regulations, unless otherwise stated, references to expenditure are references to that expenditure net of—

- (a) all related specific grants;
- (b) all related fees, charges and income; and
- (c) funding received from the Welsh Ministers in respect of PFI scheme unitary payment.

(7) In these Regulations, a reference to specific grant is to any grant paid to the local authority under conditions which impose restrictions on the particular purposes of the authority for which the grant may be used but does not include—

- (a) any grant made by the Welsh Ministers in respect of sixth form funding; or
- (b) any specific grant which is used to support expenditure through the individual schools budget.

(8) In these Regulations, a reference to a PFI scheme unitary payment is a reference to a charge payable to a local authority under a private finance transaction.

(9) In these Regulations, a reference to a private finance transaction is a reference to a transaction as defined by regulation 16 of the Local Authorities (Capital Finance) Regulations 1997(1).

(10) In these Regulations, a reference to capital expenditure means expenditure which a local authority proposes to capitalise in their accounts in accordance with proper practices being those accounting practices—

(1) O.S. 1997/319, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/371, 1999/1852 a 2003/515. Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2004 (O.S. 2004/533) yn cynnwys darpariaethau arbed ar gyfer rheoliad 16 o Reoliadau 1997.

(1) S.I. 1997/319, as amended by S.I. 1998/371, 1999/1852 and 2003/515. The Local Authorities (Capital Finance) (Consequential, Transitional and Saving Provisions) Order 2004 (S.I. 2004/533) contains savings provisions for regulation 16 of the 1997 Regulations.

- (a) y mae'n ofynnol i awdurdod eu dilyn yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad, neu
- (b) yr ystyrir eu bod yn gyffredinol, i'r graddau y maent yn gyson ag unrhyw ddeddfiad o'r fath, p'un ai drwy gyfeiriad at unrhyw God cyhoeddedig a gydnabyddir yn gyffredinol neu fel arall, yn arferion cyfrifyddu priodol i'w dilyn wrth gadw cyfrifon awdurdodau lleol, naill ai'n gyffredinol neu yn ôl y disgrifiad o dan sylw.

(11) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriadau at CERA yn gyfeiriadau at wariant cyfalaf y mae awdurdod lleol yn disgwyl iddo gael ei dalu o gyfrif refeniw'r awdurdod o fewn ystyr adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(1).

(12) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at wariant a eithrir yn gyfeiriadau at y dosbarthiadau neu ddisgrifiadau canlynol o wariant—

- (a) gwariant cyfalaf heblaw CERA;
- (b) gwariant at ddibenion adran 26 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) (trefniadau ar gyfer hebrwng wrth groesfannau ysgol); ac
- (c) gwariant a dynnir gan yr awdurdod lleol o dan adran 51A o Ddeddf 1998(3) (gwariant a dynnir at ddibenion cymunedol).

RHAN 2 – Cyllideb AALI, Cyllideb Ysgolion a Chyllideb Ysgolion Unigol

Cyllideb AALI

4.–(1) Rhagnodir y dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdod lleol a bennir yn Atodlen 1 at ddibenion adran 45A(1) o Ddeddf 1998 a phenderfynu ar gyllideb AALI awdurdod lleol, ac eithrio i'r graddau y mae gwariant o'r fath yn wariant a eithrir neu'n dod o fewn paragraff (2).

(2) Daw gwariant o fewn y paragraff hwn os yw'n wariant—

- (a) sydd, yn rhinwedd cynllun yr awdurdod (o fewn ystyr adran 48(5) o Ddeddf 1998) neu unrhyw ddeddfiad, i'w dynnu o gyfran ysgol o'r gyllideb; neu
- (b) sy'n dod o fewn is-baragraff (1) o baragraff 1 o Atodlen 2.

Penderfyniad cychwynnol cyllideb ysgolion

5.–(1) Cyn 14 Chwefror yn union cyn dechrau cyfnod cyllido rhaid i awdurdod lleol—

-
- (1) 2003 p.36.
 - (2) 1984 p.27.
 - (3) Mewnosodwyd adran 51A gan adran 40 o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlen 3 iddi, ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 9 o Atodlen 18 i Ddeddf Addysg 2005.

- (a) which the authority are required to follow by virtue of any enactment, or
- (b) which so far as they are consistent with any such enactment, are generally regarded whether by reference to any generally recognised published Code or otherwise, as proper accounting practices to be followed in the keeping of the accounts of local authorities, either generally or of the description concerned.

(11) In these Regulations references to CERA are references to capital expenditure which a local authority expect to charge to a revenue account of the authority within the meaning of section 22 of the Local Government Act 2003(1).

(12) In these Regulations, references to excepted expenditure are references to the following classes or descriptions of expenditure—

- (a) capital expenditure other than CERA;
- (b) expenditure for the purposes of section 26 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2) (arrangements for patrolling school crossing); and
- (c) expenditure incurred by the local authority under section 51A of the 1998 Act(3) (expenditure incurred for community purposes).

PART 2 – LEA Budget, Schools Budget, Individual Schools Budget

LEA Budget

4.–(1) The classes or descriptions of local authority expenditure specified in Schedule 1 are prescribed for the purposes of section 45A(1) of the 1998 Act and the determination of a local authority's LEA budget, except in so far as such expenditure is excepted expenditure or falls within paragraph (2).

(2) Expenditure falls within this paragraph if it is expenditure which—

- (a) by virtue of the authority's scheme (within the meaning of section 48(5) of the 1998 Act) or any enactment, falls to be met from a school's budget share; or
- (b) falls within sub-paragraph (1) of paragraph 1 of Schedule 2.

Initial determination of schools budget

5.–(1) Before 14 February immediately preceding the beginning of a funding period a local authority must—

-
- (1) 2003 c.36.
 - (2) 1984 c.27.
 - (3) Section 51A was inserted by section 40 of, and Schedule 3 to, the Education Act 2002, and amended by paragraph 9 of Schedule 18 to the Education Act 2005.

- (a) gwneud penderfyniad cychwynnol ar ei gyllideb ysgolion ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw; a
- (b) hysbysu ei benderfyniad i Weinidogion Cymru, i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo.

(2) Os bydd awdurdod lleol yn ailbenderfynu ei gyllideb ysgolion, rhaid iddo hysbysu'r ailbenderfyniad hwnnw i Weinidogion Cymru ac i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl ailbenderfynu.

Cyllideb ysgolion

6.–(1) Rhagnodir y dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdod lleol a bennir ym mharagraff (2) at ddibenion adran 45A(2) o Ddeddf 1998 a phenderfynu ar gyllideb ysgolion awdurdod lleol.

(2) Dyma'r dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant awdurdod lleol—

- (a) gwariant ar ddarparu a chynnal a chadw ysgolion a gynhelir ac ar addysg y disgyblion a gofrestrwyd yn yr ysgolion hynny;
- (b) gwariant ar addysg disgyblion mewn ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, yn y cartref ac yn yr ysbyty, ac ar unrhyw drefniadau eraill ar gyfer darparu addysg gynradd ac uwchradd i ddisgyblion heblaw mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol; ac
- (c) pob gwariant arall a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â darparu addysg gynradd ac uwchradd, i'r graddau nad yw gwariant o'r fath yn dod o fewn paragraff (a) neu (b),

ond dim ond i'r graddau nad yw gwariant o'r fath—

- (a) yn dod o fewn dosbarth neu ddisgrifiad o wariant a ragnodir gan reoliad 4 at ddibenion adran 45A(1) o Ddeddf 1998 a phenderfynu ar gyllideb AALL awdurdod lleol, a
- (b) yn wariant a eithrir.

Cyllideb ysgolion unigol

7. Cyn 14 Chwefror yn union cyn dechrau cyfnod cyllido, rhaid i awdurdod lleol ddi-dynnu o'i gyllideb ysgolion unrhyw un neu'r cyfan o'r dosbarthiadau neu'r disgrifiadau o wariant cynlluniedig a nodir yn Atodlen 2, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, er mwyn cyrraedd ei gyllideb ysgolion unigol ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw.

- (a) make an initial determination of their schools budget for that funding period; and
- (b) give notice of their determination to the Welsh Ministers, to the governing body of every school maintained by them.

(2) Where a local authority makes a redetermination of their schools budget, they must give notice of that redetermination to the Welsh Ministers and to the governing bodies of every school maintained by them within 28 days of making the redetermination.

Schools budget

6.–(1) The classes or descriptions of local authority expenditure specified in paragraph (2) are prescribed for the purposes of section 45A(2) of the 1998 Act and the determination of a local authority's schools budget.

(2) The classes or descriptions of local authority expenditure are—

- (a) expenditure on the provision and maintenance of maintained schools and on the education of pupils registered at those schools;
- (b) expenditure on the education of pupils at independent schools, non-maintained special schools, pupil referral units, at home and hospital, and on any other arrangements for the provision of primary and secondary education for pupils otherwise than at schools maintained by a local authority; and
- (c) all other expenditure incurred in connection with the authority's functions in relation to the provision of primary and secondary education, in so far as such expenditure does not fall within paragraph (a) or (b),

but only in so far as such expenditure—

- (a) does not fall within a class or description of expenditure prescribed by regulation 4 for the purposes of section 45A(1) of the 1998 Act and the determination of a local authority's LEA budget, and
- (b) is not excepted expenditure.

Individual schools budget

7. Before 14 February immediately preceding the beginning of a funding period, a local authority must deduct from their schools budget any or all of the classes or descriptions of planned expenditure set out in Schedule 2, in whole or in part, in order to arrive at their individual schools budget for that funding period.

Dyrannu cyllideb ysgolion unigol

8.–(1) Rhaid i awdurdod lleol ddyrannu ym mhob cyfnod cyllido yn unol â'r Rhan hon o'r Rheoliadau hyn, y cyfan o'i gyllideb ysgolion unigol ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw fel cyfrannau'r ysgolion a gynhelir ganddo o'r gyllideb.

(2) Ar y cychwyn nid oes raid i awdurdod lleol ddyrannu'r cyfan o'i gyllideb ysgolion unigol ar ffurf cyfrannau o'r gyllideb ar ddechrau cyfnod cyllido, ac yn lle hynny caniateir iddo ddal ei afael ar swm ar gyfer ailbenderfyniadau neu gywiro gwallau ond rhaid i'r swm hwnnw gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw neu gael ei ddsbarthu i ysgolion yn unol â gofynion paragraff (1) cyn diwedd y cyfnod cyllido hwnnw.

Amseru a hysbysu penderfyniad cychwynnol ar gyfrannau ysgolion o'r gyllideb

9.–(1) Cyn 31 Mawrth yn union cyn dechrau cyfnod cyllido, rhaid i awdurdod lleol—

- (a) gwneud penderfyniad cychwynnol ar swm cyfran ysgol o'r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw, a
- (b) hysbysu cyrff llywodraethu'r ysgolion a gynhelir ganddo o gyfran pob ysgol o'r gyllideb ar gyfer y cyfnod cyllido hwnnw.

(2) Rhaid i'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (1)(b) gynnwys esboniad ar sut y penderfynwyd cyfran yr ysgol o'r gyllideb ac amcangyfrif o gyfrannau'r ysgol o'r gyllideb ar gyfer y ddau gyfnod cyllido sy'n dilyn ond nid yw'r amcangyfrif hwnnw'n rhwymo'r awdurdod o ran y penderfyniadau gwirioneddol a wneir ganddo ar gyfer y ddau gyfnod cyllido sy'n dilyn.

Y fformiwla ar gyfer penderfynu cyfrannau o'r gyllideb

10.–(1) Rhaid i awdurdod lleol benderfynu cyn dechrau cyfnod cyllido, ac ar ôl yr ymgynghori y cyfeirir ato yn rheoliad 11, y fformiwla y bydd yn ei defnyddio i benderfynu cyfrannau ysgolion o'r gyllideb yn y cyfnod cyllido hwnnw gan roi sylw i'r ffactorau, y meini prawf a'r gofynion a nodir yn y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r ffaith ei bod yn ddymunol i fformiwla o'r fath fod yn syml, yn wrthrychol, yn fesuradwy, yn rhagweladwy o ran ei heffaith ac wedi'i mynegi'n glir.

(3) Ni chaiff awdurdod lleol ddefnyddio ffactorau neu feini prawf yn ei fformiwla sy'n rhoi lwfans, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ar gyfer unrhyw swm a ddyrennir i'r ysgol o unrhyw grant a delir i'r awdurdod gan Weinidigion Cymru.

Allocation of individual schools budget

8.–(1) A local authority must allocate in each funding period in accordance with this Part of these Regulations, all of their individual schools budget for that funding period as the budget shares of schools which they maintain.

(2) A local authority need not initially allocate all of their individual schools budget in the form of budget shares at the beginning of a funding period, and may instead retain an amount for the purpose of redeterminations or the correction of errors but such amount must be used for that purpose or distributed to schools as required by paragraph (1) before the end of that funding period.

Timing and notification of initial determination of schools' budget shares

9.–(1) Before 31 March immediately preceding the beginning of a funding period, a local authority must

- (a) make an initial determination of the amount of a school's budget share for that funding period, and
- (b) give notice of each school's budget share for that funding period to the governing bodies of the schools they maintain.

(2) The notice given under paragraph (1)(b) must contain an explanation of how the school's budget share was determined and an estimate of the school's budget shares for the following two funding periods but that estimate is not binding on the authority as to the actual determinations they make for the following two funding periods.

Formula for determination of budget shares

10.–(1) A local authority must determine before the beginning of a funding period, and after the consultation referred to in regulation 11, the formula which they will use to determine schools' budget shares in that funding period having regard to the factors, criteria and requirements set out in this Part of these Regulations.

(2) A local authority must have regard to the desirability of such a formula being simple, objective, measurable, predictable in effect and clearly expressed.

(3) A local authority may not use factors or criteria in their formula which make an allowance, in whole or in part, for any amount allocated to the school from any grant paid to the authority by the Welsh Ministers.

(4) Yn ddarostyngedig i reoliad 25 (trefniadau ychwanegol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru) rhaid i awdurdod lleol ddefnyddio'r fformiwla a benderfynwyd o dan baragraff (1) ym mhob penderfyniad ac ailbenderfyniad o gyfrannau o'r gyllideb.

Ymgynghori

11.–(1) O ran ei fformiwla ar gyfer cyfnod cyllido, yn ychwanegol at ymgynghori â'r fforwm ysgolion ar gyfer ei ardal, rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â chorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol y mae'n ei chynnal am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ffactorau a'r meini prawf a gymerwyd i ystyriaeth, neu'r dulliau, yr egwyddorion a'r rheolau a fabwysiadwyd yn ei fformiwla yn y cyfnod cyllido blaenorol (gan gynnwys unrhyw ffactorau, meini prawf, dulliau, egwyddorion neu reolau newydd).

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i newidiadau a wneir yn unol â rheoliadau 8(2), 19(4) neu 22.

(3) Rhaid bod ymgynghori o dan y rheoliad hwn yn digwydd mewn digon o amser i ganiatáu i'r canlyniad gael ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu fformiwla'r awdurdod ac wrth wneud penderfyniad cychwynnol ar gyfrannau ysgolion o'r gyllideb.

(4) Rhaid i awdurdod lleol hysbysu pob un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy o ganlyniad yr ymgynghori.

Ysgolion newydd

12.–(1) Rhaid i ysgol newydd gael cyllideb ddirprwyedig o'r dyddiad pan fydd yr ysgol yn derbyn disgyblion gyntaf.

(2) Ond caiff fforwm ysgolion awdurdod lleol ar gais yr awdurdod–

- (a) amrywio'r dyddiad hwnnw i un a gynigir gan yr awdurdod,
- (b) ei amrywio i ddyddiad gwahanol, neu
- (c) gwrthod amrywio'r dyddiad.

(3) Os yw'r fforwm ysgolion yn amrywio'r dyddiad i un gwahanol neu'n gwrthod ei amrywio, caiff yr awdurdod lleol wneud cais i Weinidogion Cymru i amrywio'r dyddiad.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru–

- (a) amrywio'r dyddiad hwnnw i un a gynigir gan yr awdurdod,
- (b) ei amrywio i ddyddiad gwahanol, neu
- (c) gwrthod amrywio'r dyddiad.

Niferoedd disgyblion

13.–(1) Wrth benderfynu cyfrannau o'r gyllideb ar gyfer ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir ganddynt, rhaid i awdurdod lleol

(4) Subject to regulation 25 (additional arrangements approved by the Welsh Ministers) a local authority must use the formula determined under paragraph (1) in all determinations and redeterminations of budget shares.

Consultation

11.–(1) In relation to their formula for a funding period, in addition to consulting the schools forum for their area, a local authority must consult the governing body and head teacher of every school which they maintain about any proposed changes to the factors and criteria which were taken into account, or the methods, principles and rules which were adopted in their formula in the preceding funding period (including any new factors, criteria, methods, principles or rules).

(2) Paragraph (1) does not apply to changes made pursuant to regulations 8(2), 19(4) or 22.

(3) Consultation under this regulation must take place in sufficient time to allow the outcome to be taken into account in the determination of the authority's formula and in the initial determination of schools' budget shares.

(4) A local authority must inform all those who were consulted of the outcome of the consultation.

New Schools

12.–(1) A new school must have a delegated budget from the date when the school first admits pupils.

(2) But a local authority's schools forum may on the application of the authority–

- (a) vary that date to one proposed by the authority,
- (b) vary it to a different date, or
- (c) refuse to vary the date.

(3) Where the schools forum vary the date to a different date or refuse to vary it, the local authority may apply to the Welsh Ministers to vary the date.

(4) The Welsh Ministers may–

- (a) vary the date to one proposed by the authority,
- (b) vary it to a different date, or
- (c) refuse to vary the date.

Pupil numbers

13.–(1) In determining budget shares for maintained nursery, primary and secondary schools, a local authority must take into account in their formula the

gymryd i ystyriaeth yn ei fformiwla nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgolion hynny ar unrhyw ddyddiadau a benderfynir gan yr awdurdod, a'r nifer hwnnw wedi'i bwysoli os yw'r awdurdod o'r farn bod hynny'n briodol yn unol â pharagraff (7).

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw nifer y disgyblion cofrestredig yn cynnwys—

- (a) disgyblion y mae grant yn daladwy ar eu cyfer i'r awdurdod gan Weinidogion Cymru o dan adran 36 o Ddeddf 2000;
- (b) disgyblion mewn lleoedd y mae'r awdurdod yn cydnabod eu bod wedi'u cadw ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu (ac eithrio pan fo'r awdurdod lleol yn dewis peidio ag arfer ei ddisgresiwn o dan reoliad 15 mewn perthynas â phlant mewn dosbarthiadau meithrin) ar gyfer plant mewn dosbarthiadau meithrin.

(3) Pan fo'r awdurdod yn penderfynu un dyddiad yn unig at ddibenion paragraff (1), rhaid iddo fod yn ddyddiad sy'n dod—

- (a) cyn dechrau'r cyfnod cyllido o dan sylw; a
- (b) yn y flwyddyn ysgol y digwydd dechrau'r cyfnod cyllido o dan sylw ynddi.

(4) Pan fo'r awdurdod yn penderfynu ar fwy nag un dyddiad at ddibenion paragraff (1), yna—

- (a) rhaid i un o'r dyddiadau hynny fodloni paragraff (3);
- (b) o ran y dyddiad arall neu'r dyddiadau eraill—
 - (i) ni chaiff unrhyw ddyddiad fod yn gynt na dechrau'r flwyddyn ysgol y mae'r cyfnod cyllido o dan sylw yn digwydd ynddi, a
 - (ii) caiff yr awdurdod benderfynu dyddiad neu ddyddiadau sydd yn y dyfodol ac amcangyfrif nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar y dyddiad hwnnw neu'r dyddiadau hynny.

(6) No revised scheme is to come into force unless approved by the schools forum or the Welsh Ministers in accordance with this regulation.

Leighton Andrews

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes,
un o Weinidogion Cymru

16 Mawrth 2010

Minister for Children, Education and Lifelong
Learning, one of the Welsh Ministers

16 March 2010

Dosbarthiadau neu Ddisgrifiadau o Wariant Cynlluniedig a Ragnodwyd at Ddibenion Cyllideb AALl yr Awdurdod Lleol

Mae gwariant o ddsbarth neu ddisgrifiad y cyfeirir ato yn yr Atodlen hon yn cynnwys gwariant ar gostau gweinyddol cysylltiedig a gorbenion

Anghenion dysgu ychwanegol

1. Gwariant ar wasanaethau a roddir gan seicolegwyr addysgol.
2. Gwariant mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod o dan adrannau 321 i 331 o Ddeddf 1996 (swyddogaethau sy'n ymwneud ag adnabod ac asesu plant ag anghenion addysgol arbennig a llunio, cynnal ac adolygu datganiadau ar gyfer y plant hynny).
3. Gwariant ar fonitro'r ddarpariaeth i ddisgyblion mewn ysgolion (os cynhelir hwy gan yr awdurdod neu beidio) at ddibenion lledaenu arferion da mewn perthynas â phlant ag anghenion addysgol arbennig a gwella ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar eu cyfer.
4. Gwariant ar gydweithio â chyrrff statudol a gwirfoddol eraill i ddarparu cefnogaeth i blant ag anghenion addysgol arbennig.
5. Gwariant mewn cysylltiad ag—
 - (a) darparu gwasanaethau partneriaeth â rhieni neu ganllawiau a gwybodaeth arall i rieni disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sydd, mewn perthynas â disgyblion mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, yn ychwanegol at yr wybodaeth a ddarperir fel arfer gan gyrff llywodraethu ysgolion o'r fath; neu
 - (b) trefniadau a wneir gan yr awdurdod er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundebau â rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig.
6. Gwariant a dynnir o ran paratoi unrhyw ran o Gynllun Plant a Phobl Ifanc gan yr awdurdod mewn cysylltiad ag addysg plant ag anawsterau ymddygiad.

Classes or Descriptions of Planned Expenditure Prescribed for the Purposes of the LEA Budget of a Local Authority

Expenditure of a class or description referred to in this Schedule includes expenditure on associated administrative costs and overheads

Additional learning needs

1. Expenditure on services provided by educational psychologists.
2. Expenditure in connection with the authority's functions under sections 321 to 331 of the 1996 Act (which functions relate to the identification and assessment of children with special educational needs and the making, maintaining and reviewing of statements for such children).
3. Expenditure on monitoring the provision for pupils in schools (whether or not maintained by the authority) for the purposes of disseminating good practice in relation to, and improving the quality of educational provision for, children with special educational needs.
4. Expenditure on collaboration with other statutory and voluntary bodies to provide support for children with special educational needs.
5. Expenditure in connection with—
 - (a) the provision of parent partnership services or other guidance and information to the parents of pupils with special educational needs which, in relation to pupils at a school maintained by the authority, is in addition to the information usually provided by the governing bodies of such schools; or
 - (b) arrangements made by the authority with a view to avoiding or resolving disagreements with the parents of children with special education needs.
6. Expenditure incurred in relation to the preparation of any part of the authority's Children and Young People's Plan relating to the education of children with behavioural difficulties.

Iechyd ac amddiffyn plant

7. Gwariant ar gyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran amddiffyn plant o dan Ddeddf Plant 1989(1) ac o dan adran 175 o Ddeddf 2002 a swyddogaethau eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

8. Gwariant a dynnir wrth ymrwymo i drefniant neu a dynnir wedyn yn unol â threfniant o dan adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999(2) neu reoliadau a wneir o dan adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(3).

9. Gwariant wrth ddarparu cymorth meddygol arbennig ar gyfer disgyblion unigol i'r graddau na thelir gwariant o'r fath gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Bwrdd Iechyd Lleol neu Weinidogion Cymru.

Gwelliannau mewn ysgolion

10. Gwariant a dynnir gan yr awdurdod mewn perthynas â chamau i gefnogi gwella safonau yn ysgolion yr awdurdod, gan gynnwys, yn benodol—

- (a) gwariant a dynnir mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan adran 197 o Ddeddf 2002 (cytundebau partneriaeth);
- (b) gwariant a dynnir mewn cysylltiad ag ymrwymo i gontract yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 63 o Ddeddf 2002(4) (contractau i sicrhau gwasanaethau o natur gynghorol mewn perthynas ag ysgolion â gwendidau difrifol neu ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt);
- (c) gwariant a dynnir mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan adran 14 i 17 o Ddeddf 1998(5) (pwerau ymyrryd, penodi llywodraethwyr ychwanegol ac atal cyllidebau a ddirprwywyd mewn ysgolion sy'n peri pryder); a
- (ch) gwariant ar benodi a thalu aelodau gweithredol interim o dan adran 16A o Ddeddf 1998(6).

Mynediad i addysg

11. Gwariant o ran y materion canlynol—

-
- (1) 1989 p.41.
 - (2) 1999 p.8.
 - (3) 2006 p.42.
 - (4) Diwygiwyd adran 63 gan adran 61 o Ddeddf Addysg 2005 a chan adran 71 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ac Atodlen 7 iddi.
 - (5) 1998 p.31. Diwygiwyd adrannau 14 i 17 gan adrannau 55 i 57 o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlen 5 a pharagraffau 92 i 94 o Atodlen 21 iddi, a chan baragraffau 14 i 18 o Atodlen 9 i Ddeddf Addysg 2005.
 - (6) Mewnosodwyd adran 16A gan adran 57 o Ddeddf Addysg 2002.

Health and child protection

7. Expenditure on carrying out the authority's child protection functions under the Children Act 1989(1) and under section 175 of the 2002 Act and other functions relating to child protection.

8. Expenditure incurred in entering into, or subsequently incurred pursuant to, an arrangement under section 31 of the Health Act 1999(2) or regulations made under section 33 of the National Health Service (Wales) Act 2006(3).

9. Expenditure in providing special medical support for individual pupils in so far as such expenditure is not met by a National Health Service Trust, Local Health Board or the Welsh Ministers.

School improvement

10. Expenditure incurred by the authority in respect of action to support the improvement of standards in the authority's schools, including, in particular—

- (a) expenditure incurred in connection with the exercise of their functions under section 197 of the 2002 Act (partnership agreements);
- (b) expenditure incurred in connection with entering into a contract pursuant to a direction under section 63 of the 2002 Act(4) (contracts to obtain services of an advisory nature in respect of schools with serious weaknesses or schools requiring special measures);
- (c) expenditure incurred in connection with the exercise of their functions under section 14 to 17 of the 1998 Act(5) (powers of intervention, of appointment of additional governors and of suspension of delegated budgets in schools causing concern); and
- (d) expenditure on the appointment and remuneration of interim executive members under section 16A of the 1998 Act(6).

Access to education

11. Expenditure in relation to the following matters—

-
- (1) 1989 c.41.
 - (2) 1999 c.8.
 - (3) 2006 c.42.
 - (4) Section 63 was amended by section 61 of the Education Act 2005, and section 71 of, and Schedule 7 to, the Education and Inspections Act 2006.
 - (5) 1998 c.31. Sections 14 to 17 have been amended by sections 55 to 57 of, and Schedule 5 and paragraphs 92 to 94 of Schedule 21 to, the Education Act 2002, and by paragraphs 14 to 18 of Schedule 9 to the Education Act 2005.
 - (6) Section 16A was inserted by section 57 of the Education Act 2002.

- (a) rheoli rhaglen gyfalaf yr awdurdod gan gynnwys paratoi ac adolygu cynllun rheoli asedau a thrafod a rheoli trafodion cyllid preifat;
- (b) swyddogaethau'r awdurdod o ran gwahardd disgyblion o ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion, heb gynnwys unrhyw ddarpariaeth addysg i'r disgyblion hynny, ond gan gynnwys cyngor i rieni disgybl a waharddwyd;
- (c) gweinyddu'r system i dderbyn disgyblion i ysgolion (gan gynnwys apelau derbyn ac ymgynghori o dan adran 89(2) o Ddeddf 1998(1));
- (ch) gwariant a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 85A o Ddeddf 1998(2) (sy'n darparu ar gyfer sefydlu a chynnal a chadw fforymau derbyn);
- (d) swyddogaethau'r awdurdod o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(3);
- (dd) swyddogaethau'r awdurdod o dan adrannau 510 a 514 o Ddeddf 1996 (darparu a gweinyddu grantiau dilladu a grantiau byrddio), ac yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 518(1) o Ddeddf 1996(4).

12. Gwariant ar y Gwasanaeth Lles Addysg a gwariant arall sy'n deillio o swyddogaethau'r awdurdod o dan Bennod 2 o Ran 6 o Ddeddf 1996 (presenoldeb yn yr ysgol).

13. Gwariant ar ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr o dan adran 1(1) o Ddeddf Addysg 1962(5) ac o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(6).

14. Gwariant ar grantiau disgrisiynol o dan adran 1(6) neu 2 o Ddeddf Addysg 1962 (dyfarndaliadau ar gyfer cyrsiau dynodedig a chyrsiau eraill).

15. Gwariant ar dalu lwfansau i bobl dros oedran ysgol gorfodol yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 518(1)(b) o Ddeddf 1996.

- (a) management of the authority's capital programme including preparation and review of an asset management plan and negotiation and management of private finance transactions;
- (b) the authority's functions in relation to the exclusion of pupils from schools or pupil referral units, excluding the making of any provision of education to such pupils, but including advice to the parents of an excluded pupil;
- (c) administering the system for admissions of pupils to schools (including admissions appeals and carrying out consultations under section 89(2) of the 1998 Act(1));
- (d) expenditure incurred in connection with the authority's functions under section 85A of the 1998 Act(2) (which provides for the establishment and maintenance of admission forums);
- (e) the authority's functions under the Learner Travel (Wales) Measure 2008(3);
- (f) the authority's functions under sections 510 and 514 of the 1996 Act (provision and administration of clothing grants and boarding grants), and pursuant to regulations made under section 518(1) of the 1996 Act(4).

12. Expenditure on the Education Welfare Service and other expenditure arising from the authority's functions under Chapter 2 of Part 6 of the 1996 Act (school attendance).

13. Expenditure on the provision of support for students under section 1(1) of the Education Act 1962(5) and under section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998(6).

14. Expenditure on discretionary grants under section 1(6) or 2 of the Education Act 1962 (awards for designated and other courses).

15. Expenditure on the payment to persons over compulsory school age of allowances pursuant to regulations made under section 518(1)(b) of the 1996 Act.

(1) Amnewidiwyd adran 89(2) gan adran 51 o Ddeddf Addysg 2002 a pharagraff 5 o Atodlen 4 iddi ac fe'i diwygiwyd gan adran 45 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

(2) Mewnosodwyd adran 85A gan adran 46 o Ddeddf Addysg 2002 ac fe'i diwygiwyd gan adran 41 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

(3) 2008 mccc 2.

(4) Amnewidiwyd adran 518 gan adran 129 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(5) 1962 p.12.

(6) 1998 p.30.

(1) Section 89(2) was substituted by section 51 of, and paragraph 5 of Schedule 4 to, the Education Act 2002, and amended by section 45 of the Education and Inspections Act 2006.

(2) Section 85A was inserted by section 46 of the Education Act 2002, and amended by section 41 of the Education and Inspections Act 2006.

(3) 2008 nawm 2.

(4) Section 518 was substituted by section 129 of the School Standards and Framework Act 1998.

(5) 1962 c.12.

(6) 1998 c.30.

16. Gwariant ar dalu lwfansau i bobl dros oedran ysgol gorfodol mewn cysylltiad ag addysg neu hyfforddiant a wneir o dan adran 14 o Ddeddf 2002 neu'n unol â rheoliadau a wneir o dan adran 181(1) o Ddeddf 2002.

Addysg, hyfforddiant a gwasanaethau i bobl ifanc ac oedolion

17. Gwariant ar ddarparu addysg a hyfforddiant a gweithgaredd amser hamdden wedi'i drefnu a darpariaeth arall o dan adrannau 15A a 15B o Ddeddf 1996(1).

18. Gwariant ar y ddarpariaeth gan yr awdurdod lleol o dan adrannau 15A a 508 o Ddeddf 1996(2) o adloniant a hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol, ac ar ddarpariaeth yr awdurdod o wasanaethau o dan adran 123 o Ddeddf 2000 i annog a galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant.

19. Gwariant o ran swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â'r cwricwlwm lleol o dan adrannau 116A i 116O o Ddeddf 2002(3) ac adrannau 33J i 33L o Ddeddf 2000(4).

Rheoli strategol

20. Gwariant yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod addysg lleol o ran—

- (a) swyddogaethau'r Prif Swyddog Addysg a'i staff personol;
- (b) cynllunio ar gyfer y gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd gan gynnwys—
 - (i) cynllunio a rheoli cyflenwad lleoedd mewn ysgolion, a swyddogaethau ynghylch sefydlu, newid neu gau ysgolion yn unol â Phennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 1998 neu adran 113A o Ddeddf 2000 ac Atodlen 7A iddi;
 - (ii) paratoi unrhyw ran o Gynllun Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod ynghylch trefniadaeth ysgolion a gwella ysgolion;
 - (iii) ymateb i ddatganiadau polisi a phapurau ymgynghori;

-
- (1) Mewnosodwyd adran 15A gan adran 140 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraff 63 o Atodlen 30 iddi, ac fe'i diwygiwyd gan adran 149 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 a pharagraff 54 o Atodlen 9 iddi. Mewnosodwyd adran 15B gan adran 149 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 a pharagraff 55 o Atodlen 9 iddi.
 - (2) Diwygiwyd adran 508 gan adran 137 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, ac adran 6(2) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006.
 - (3) Mewnosodwyd adrannau 116A i 116O o Ddeddf 2002 gan adrannau 4 i 18 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).
 - (4) Mewnosodwyd adrannau 33J i 33L o Ddeddf 2000 gan adrannau 31 i 33 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

16. Expenditure on the payment to persons over compulsory school age of allowances in connection with education or training made under section 14 of the 2002 Act or pursuant to regulations made under section 181(1) of the 2002 Act.

Education, training and services for young persons and adults

17. Expenditure on the provision of education and training and of organised leisure time occupation and other provision under sections 15A and 15B of the 1996 Act(1).

18. Expenditure on the provision by the local authority under sections 15A and 508 of the 1996 Act(2) of recreation and social and physical training, and on the authority's provision of services under section 123 of the 2000 Act to encourage and enable the participation by young people in education and training.

19. Expenditure in relation to the local authority's functions in connection with the local curriculum under sections 116A to 116O of the 2002 Act(3) and sections 33J to 33L of the 2000 Act(4).

Strategic management

20. Expenditure in their capacity as a local education authority in relation to—

- (a) functions of the Chief Education Officer and his or her personal staff;
- (b) planning for the education service as a whole including—
 - (i) planning and managing the supply of school places, and functions in relation to the establishment, alteration or discontinuance of schools pursuant to Chapter 2 of Part 2 of the 1998 Act or section 113A of, and Schedule 7A to, the 2000 Act;
 - (ii) the preparation of any part of the authority's Children and Young People's Plan relating to school organisation and school improvement; and
 - (iii) responding to policy statements and consultation papers;

-
- (1) Section 15A was inserted by section 140 of, and paragraph 63 of Schedule 30 to, the School Standards and Framework Act 1998, and was amended by section 149 of, and paragraph 54 of Schedule 9 to, the Learning and Skills Act 2000. Section 15B was inserted by section 149 of, and paragraph 55 of Schedule 9 to, the Learning and Skills Act 2000.
 - (2) Section 508 was amended by section 137 of the Learning and Skills Act 2000, and section 6(2) of the Education and Inspections Act 2006.
 - (3) Sections 116A to 116O of the 2002 Act were inserted by sections 4 to 18 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1).
 - (4) Sections 33J to 33L of the 2000 Act were inserted by sections 31 to 33 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009.

- (c) swyddogaethau'r awdurdod o dan Ran I o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999⁽¹⁾ (Gwerth Gorau) neu Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009⁽²⁾ (gwella llywodraeth leol) a darparu cyngor i gynorthwyo cyrff llywodraethu i gaffael nwyddau a gwasanaethau er mwyn gwella'n barhaus ar y dulliau yr arferir swyddogaethau'r cyrff llywodraethu hynny, gan roi sylw i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
- (ch) paratoi cyllideb refeniw; paratoi gwybodaeth am incwm a gwariant ynghylch addysg, i'w hymgorffori yn natganiad cyfrifon blynyddol yr awdurdod; archwiliad allanol i geisiadau am grantiau a'r ffurflenni a ddychwelir sy'n ymwneud ag addysg a swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 44 o Ddeddf 2002;
- (d) gweinyddu grantiau i'r awdurdod (gan gynnwys paratoi ceisiadau), swyddogaethau a osodir gan neu o dan Bennod 4 o Ran 2 o Ddeddf 1998 ac, os yw'n ddyletswydd ar yr awdurdod i wneud hynny, sicrhau'r taliadau o ran y dreth, yswiriau gwladol a chyfraniadau blwydd-daliadau;
- (dd) awdurdodi a monitro—
- (i) gwariant na thelir mohono o gyfrannau ysgolion o'r gyllideb; a
- (ii) gwariant o ran ysgolion sydd heb gyllidebau dirprwyedig,
- a phob gweinyddu ariannol cysylltiedig;
- (e) monitro gan yr awdurdod o gydymffurfedd â gofynion ei gynllun ariannol a gynhelir o dan adran 48 o Ddeddf 1998⁽³⁾;
- (f) swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 27 o Ddeddf 2002 (darparu cyfleusterau cymunedol gan gyrff llywodraethu);
- (ff) tasgau sy'n angenrheidiol i gyflawni cyfrifoldebau prif swyddog cyllid yr awdurdod o dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972⁽⁴⁾;
- (g) recriwtio, hyfforddi, datblygu proffesiynol parhaus, rheoli perfformiad a rheoli personél yn achos staff a gyllidir o wariant na thelir amdano o gyfrannau ysgolion o'r gyllideb ac a delir am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â swyddogaethau a gwasanaethau'r awdurdod y cyfeirir atynt yn yr Atodlen hon;

- (c) functions of the authority under Part 1 of the Local Government Act 1999⁽¹⁾ (Best Value) or Part 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009⁽²⁾ (local government improvement) and the provision of advice to assist governing bodies in procuring goods and services with a view to securing continuous improvement in the way the functions of those governing bodies are exercised, having regard to a combination of economy, efficiency and effectiveness;
- (d) revenue budget preparation; the preparation of information on income and expenditure relating to education, for incorporation into the authority's annual statement of accounts; the external audit of grant claims and returns relating to education and functions of the authority under section 44 of the 2002 Act;
- (e) administration of grants to the authority (including preparation of applications), functions imposed by or under Chapter 4 of Part 2 of the 1998 Act and, where it is the authority's duty to do so, ensuring payments are made in respect of taxation, national insurance and superannuation contributions;
- (f) authorisation and monitoring of—
- (i) expenditure which is not met from schools' budget shares; and
- (ii) expenditure in respect of schools which do not have delegated budgets,
- and all related financial administration;
- (g) the authority's monitoring of compliance with the requirements of their financial scheme maintained under section 48 of the 1998 Act⁽³⁾;
- (h) the authority's functions under section 27 of the 2002 Act (provision of community facilities by governing bodies);
- (i) tasks necessary for the discharge of the authority's chief finance officer's responsibilities under section 151 of the Local Government Act 1972⁽⁴⁾;
- (j) recruitment, training, continuing professional development, performance management and personnel management of staff who are funded by expenditure not met from schools' budget shares and who are paid for services carried out in relation to those of the authority's functions and services which are referred to in this Schedule;

(1) 1999 p.27.

(2) 2009 mccc 2.

(3) Diwygiwyd adran 48 gan adran 40 o Ddeddf 2002 a pharagraff 2 o Atodlen 3 iddi, gan adran 117 o Ddeddf 2005 a pharagraff 7 o Atodlen 18 iddi a chan adrannau 57 a 184 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 a pharagraff 3 o Atodlen 5 a Rhan 6 o Atodlen 18 iddi.

(4) 1972 p.70.

(1) 1999 c.27.

(2) 2009 nawm 2.

(3) Section 48 was amended by section 40 of, and paragraph 2 of Schedule 3 to, the 2002 Act, by section 117 of, and paragraph 7 of Schedule 18 to, the 2005 Act, and by sections 57 and 184 of, and paragraph 3 of Schedule 5 and Part 6 of Schedule 18 to, the Education and Inspections Act 2006.

(4) 1972 c.70.

- (ng) ymchwiliadau a wneir gan yr awdurdod ar gyflogeion neu gyflogeion posibl yr awdurdod neu gyrff llywodraethu ysgolion, neu bersonau a gymerir ymlaen fel arall neu sydd i'w cymryd ymlaen (gyda thâl neu'n ddi-dâl) i weithio yn yr ysgolion neu drostynt;
- (h) swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â blwydd-daliadau, gan gynnwys gweinyddu pensiynau athrawon, ar wahân i swyddogaethau a gafodd eu dirprwyo i gyrff llywodraethu ysgolion;
- (i) aelodaeth ôl-weithredol o gynlluniau pensiwn ac etholiadau ôl-weithredol a wneir mewn perthynas â phensiynau pan na fyddai'n briodol disgwyl i gorff llywodraethu ysgol dalu'r gost o gyfran yr ysgol o'r gyllideb;
- (j) cyngor, yn unol â swyddogaethau statudol yr awdurdod, i gyrff llywodraethu mewn perthynas â staff a delir, neu sydd i'w talu, i weithio mewn ysgol, a chyngor mewn perthynas â rheoli'r holl staff ar y cyd mewn unrhyw ysgol unigol ("gweithlu'r ysgol"), gan gynnwys yn benodol y cyngor o ran newidiadau mewn cyflog, amodau gwasanaeth a chyd-gyfansoddiad a chyd-drefniadaeth gweithlu ysgol o'r fath;
- (l) penderfynu amodau gwasanaeth ar gyfer y staff nad ydynt yn addysgu a chynghori'r ysgolion ar raddau'r cyfryw staff;
- (ll) swyddogaethau'r awdurdod ynghylch penodi neu ddiswyddo cyflogeion;
- (m) ymgynghori, a swyddogaethau yn barod ar gyfer ymgynghori gan neu â chyrff llywodraethu, disgyblion a phobl a gyflogir mewn ysgolion neu eu cynrychiolwyr, neu gyrff eraill sydd â buddiant;
- (n) cydymffurfio â dyletswyddau'r awdurdod o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974(1) a'r darpariaethau statudol perthnasol fel y'u diffinnir yn adran 53(1) o'r Ddeddf honno i'r graddau na ellir cael cydymffurfedd yn rhesymol drwy'r tasgau a ddirprwyir i gyrff llywodraethu ysgolion; ond gan gynnwys gwariant a dynnir gan yr awdurdod wrth fonitro perfformiad y tasgau hynny gan gyrff llywodraethu ac os oes angen rhoi cyngor iddynt;
- (o) ymchwilio i gwynion a'u datrys gan gynnwys camau a gymerir i gynorthwyo corff llywodraethu wrth drafod cwyn;
- (p) gwasanaethau cyfreithiol ynghylch swyddogaethau statudol yr awdurdod;
- (ph) paratoi ac adolygu cynlluniau sy'n ymwneud â chydweithio â gwasanaethau eraill awdurdod lleol neu gydweithio â chyrff cyhoeddus neu wirfoddol;
- (k) investigations which the authority carry out of employees or potential employees of the authority or of governing bodies of schools, or of persons otherwise engaged or to be engaged (with or without remuneration) to work at or for schools;
- (l) functions of the authority in relation to superannuation, including the administration of teachers' pensions, other than functions which have been delegated to the governing bodies of schools;
- (m) retrospective membership of pension schemes and retrospective elections made in respect of pensions where it would not be appropriate to expect the governing body of a school to meet the cost from the school's budget share;
- (n) advice, in accordance with the authority's statutory functions, to governing bodies in relation to staff paid, or to be paid, to work at a school, and advice in relation to the management of all such staff collectively at any individual school ("the school workforce"), including in particular advice with reference to alterations in remuneration, conditions of service and the collective composition and organisation of such school workforce;
- (o) determination of conditions of service for non-teaching staff and advice to schools on the grading of such staff;
- (p) the authority's functions relating to the appointment or dismissal of employees;
- (q) consultation and functions preparatory to consultation with or by governing bodies, pupils and persons employed at schools or their representatives, or with other interested bodies;
- (r) compliance with the authority's duties under the Health and Safety at Work etc Act 1974(1) and the relevant statutory provisions as defined in section 53(1) of that Act in so far as compliance cannot reasonably be achieved through tasks delegated to the governing bodies of schools; but including expenditure incurred by the authority in monitoring the performance of such tasks by governing bodies and where necessary the giving of advice to them;
- (s) the investigation and resolution of complaints including action taken to assist a governing body in handling a complaint;
- (t) legal services relating to the statutory functions of the authority;
- (u) the preparation and review of plans involving collaboration with other local authority services or with public or voluntary bodies;

- (r) paratoi a chyhoeddi unrhyw ran o Gynllun Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod ynghylch datblygu blynyddoedd cynnar a gofal plant a darparu partneriaeth datblygu blynyddoedd cynnar a gofal plant (ond nid y gwariant a awdurdodir ganddi) o dan adran 119 o Ddeddf 1998;
- (rh) darparu gwybodaeth ar gyfer neu ar gais Gweinidogion Cymru, adran o'r llywodraeth neu unrhyw gorff sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron a darparu gwybodaeth arall y mae'r awdurdod o dan ddyletswydd i drefnu ei bod ar gael;
- (s) dyletswyddau'r awdurdod o dan Erthygl 4(2) a (5) o Orchymyn Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol) 2001(1);
- (t) talu'r ffioedd sy'n daladwy i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 4(4) a 9(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cyngor yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 12 o'r Ddeddf honno(2);
- (th)gwariant a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 12 o Ddeddf 2002 (awdurdodau'n goruchwyllo cwmnïau a ffurfiwyd gan gyrff llywodraethu); a
- (u)gwariant a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995(3) i'r graddau na ellir cael cydymffurfedd yn rhesymol drwy'r tasgau a ddirprwyir i gyrff llywodraethu ysgolion; ond gan gynnwys gwariant a dynnir gan yr awdurdod wrth fonitro perfformiad y tasgau hynny gan gyrff llywodraethu ac os oes angen rhoi cyngor iddynt.

21. Gwariant mewn cysylltiad â monitro perfformiad ysgolion, monitro rheolaeth cyllidebau dirprwyedig ac mewn cysylltiad â monitro rheolaeth ysgolion a llywodraethu ysgolion.

22. Gwariant ar sefydlu a chynnal systemau cyfrifiadurol electronig, gan gynnwys storio data, i'r graddau y maent yn cysylltu, neu'n hwyluso cysylltiad yr awdurdod â'r ysgolion a gynhelir ganddo, rhwng ysgolion o'r fath â'i gilydd neu rhwng ysgolion o'r fath â phobl neu sefydliadau eraill.

23. Gwariant ar fonitro trefniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n ofynnol gan orchymynion a wneir o dan adran 108 o Ddeddf 2002.

- (v) the preparation and publication of any part of the authority's Children and Young People's Plan relating to early years development and childcare and the provision of (but not the expenditure authorised by) an early years development and childcare partnership under section 119 of the 1998 Act;
- (w) provision of information to or at the request of the Welsh Ministers, a government department or any body exercising functions on behalf of the Crown and the provision of other information which the authority are under a duty to make available;
- (x) the authority's duties under Article 4(2) and (5) of the Race Relations Act 1976 (Statutory Duties) Order 2001(1);
- (y) the remittance of fees payable to the General Teaching Council for Wales by virtue of sections 4(4) and 9(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 and the provision of information required by the Council pursuant to regulations made under section 12 of that Act(2);
- (z) expenditure incurred in connection with the authority's functions pursuant to regulations made under section 12 of the 2002 Act (supervising by authorities of companies formed by governing bodies); and
 - (aa)expenditure incurred in connection with the authority's functions under the Disability Discrimination Act 1995(3) in so far as compliance cannot reasonably be achieved through tasks delegated to the governing bodies of schools; but including expenditure incurred by the authority in monitoring the performance of such tasks by governing bodies and where necessary the giving of advice to them.

21. Expenditure in connection with monitoring the performance of schools, monitoring the management of delegated budgets and with monitoring the management and governance of schools.

22. Expenditure on establishing and maintaining electronic computer systems, including data storage, in so far as they link, or facilitate the linkage of, the authority to schools which they maintain, such schools to each other or such schools to other persons or institutions.

23. Expenditure on monitoring National Curriculum assessment arrangements required by orders made under section 108 of the 2002 Act.

(1) O.S. 2001/3458.

(2) 1998 p.30. Diwygiwyd adran 12 gan adrannau 148 a 215 o Ddeddf Addysg 2002 a pharagraff 8 o Atodlen 12 a pharagraff 81 o Atodlen 21 i'r Ddeddf honno.

(3) 1995 p.50.

(1) S.I. 2001/3458.

(2) 1998 c.30. Section 12 was amended by sections 148 and 215 of the Education Act 2002 and paragraph 8 of Schedule 12 and paragraph 81 of Schedule 21 to that Act.

(3) 1995 c.50.

24. Gwariant mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â Chyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol a ffurfiwyd gan yr awdurdod o dan adran 390 o Ddeddf 1996 neu wrth ailystyried a pharatoi maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn unol ag Atodlen 31 i Ddeddf 1996.

25. Gwariant mewn perthynas â diswyddo neu ymddeoliad cynamserol unrhyw berson neu at ddibenion trefnu ymddiswyddiad, neu mewn perthynas â gweithredoedd sy'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson.

26. Gwariant mewn perthynas â thaliadau athrawon o dan adran 19(9) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

27. Gwariant ar wneud taliadau pensiwn, heblaw mewn perthynas â staff a gyflogir mewn ysgolion.

28. Gwariant yn unol â chytundeb rhwymol, os awdurdod lleol yw'r parti arall, neu os yw'r parti on eraill yn cynnwys un neu fwy o awdurdodau lleol, o ran gweithrediad cyfleusterau a ddarperir yn rhannol ond nid yn unswydd at ddefnydd ysgolion.

29. Gwariant mewn perthynas â swyddogaethau corff priodol o dan reoliadau yn unol ag adran 19(2)(g) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(1).

30. Gwariant ar benodi llywodraethwyr, gwneud offerynnau llywodraeth, talu treuliau y mae gan lywodraethwyr hawl i'w cael nad ydynt yn daladwy o gyfran ysgol o'r gyllideb a darparu gwybodaeth i lywodraethwyr.

31. Unrhyw wariant ar yswiriant heblaw am atebolrwydd sy'n codi mewn cysylltiad ag ysgolion neu fangroedd ysgol.

32. Gwariant a dynnir mewn cysylltiad â swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 47A o Ddeddf 1998 (sefydlu a chynnal a chadw fforymau ysgolion ac ymgynghori â hwy).

24. Expenditure in connection with the authority's functions in relation to the Standing Advisory Council on Religious Education constituted by the authority under section 390 of the 1996 Act or in the reconsideration and preparation of an agreed syllabus of religious education in accordance with Schedule 31 to the 1996 Act.

25. Expenditure in respect of the dismissal or premature retirement of, or for the purpose of securing the resignation of, or in respect of acts of discrimination against, any person.

26. Expenditure in respect of a teacher's emoluments under section 19(9) of the Teaching and Higher Education Act 1998.

27. Expenditure on making pension payments, other than in respect of staff employed in schools.

28. Expenditure in pursuance of a binding agreement, where the other party is a local authority, or other parties include one or more local authorities, in relation to the operation of a facility provided partly but not solely for the use of schools.

29. Expenditure in respect of the functions of an appropriate body under regulations pursuant to section 19(2)(g) of the Teaching and Higher Education Act 1998(1).

30. Expenditure on the appointment of governors, the making of instruments of government, the payment of expenses to which governors are entitled and which are not payable from a school's budget share and the provision of information to governors.

31. Any expenditure on insurance other than for liability arising in connection with schools or school premises.

32. Expenditure incurred in connection with the authority's functions under section 47A of the 1998 Act (the establishment and maintenance of, and consultation with, schools forums).

(1) *Gweler* Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005, O.S. 2005/1818.

(1) *See* the Education (Induction Arrangements for School Teachers (Wales) Regulations 2005, S.I. 2005/1818.

**Dosbarthiadau neu Ddisgrifiadau o
Wariant Cynlluniedig y ceir ei Ddidynnu
o Gyllideb Ysgolion Awdurdod
Lleol**

Rheoliad 7

Mae gwariant o ddosbarth neu ddisgrifiad y cyfeirir ato yn yr Atodlen hon yn cynnwys gwariant ar gostau gweinyddol cysylltiedig a gorbenion

Gwariant ar gyfer cynnal grantiau

1.–(1) Gwariant (heblaw gwariant a dynnir mewn cysylltiad ag unrhyw baragraff arall o'r Atodlen hon neu unrhyw baragraff o Atodlen 1) y mae'n rhaid i'r awdurdod ei dynnu fel un o amodau grant penodol a delir i'r awdurdod ac a gymerir i ystyriaeth wrth benderfynu swm grant penodol o'r fath.

(2) Unrhyw swm y mae'n rhaid i'r awdurdod drefnu ei fod ar gael fel amod o'r grant a delir o dan adran 14 o Ddeddf 2002 neu o dan adran 484 o Ddeddf 1998 ac a gymerir i ystyriaeth wrth benderfynu swm grant o'r fath, y dirprwyir penderfyniadau ynghylch ei wariant i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir.

Anghenion dysgu ychwanegol

2. Yn ddarostyngedig i baragraffau 3 a 4, gwariant a dynnir wrth wneud y ddarpariaeth a bennir yn natganiad disgybl o anghenion addysgol arbennig ac eithrio os yw'r disgybl—

- (a) yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arbennig a gynhelir gan yr awdurdod; neu
- (b) yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol feithrin, ysgol gynradd neu ysgol uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod sy'n cymryd un o nifer o leoedd yn yr ysgol honno ac y mae'r awdurdod yn cydnabod bod y lleoedd hynny'n lleoedd a gedwir i blant ag anghenion addysgol arbennig.

3. Os daw disgybl o fewn paragraff 2(a) neu (b) a bod cost y ddarpariaeth a bennir yn natganiad y disgybl o anghenion addysgol arbennig yn sylweddol yn fwy na'r gost gyfartalog am ddarparu ar gyfer y disgyblion eraill yn yr ysgol arbennig neu'r disgyblion eraill sydd yn y lleoedd hynny sydd wedi'u cadw yn yr ysgol o dan sylw, o ba faint y mae'r gost honno'n fwy.

4. Gwariant wrth wneud y ddarpariaeth a bennir yn natganiad disgybl o anghenion addysgol arbennig os daw'r disgybl o fewn paragraff 2(b) ond bod y lleoedd a gydnabyddir gan yr awdurdod fel lleoedd a gedwir i blant ag anghenion addysgol arbennig ar gyfer y cyfryw ddisgyblion â nam ar eu golwg, eu clyw, eu

**Classes or Descriptions of Planned
Expenditure which may be Deducted
from the Schools Budget of a Local
Authority**

Regulation 7

Expenditure of a class or description referred to in this Schedule includes expenditure on associated administrative costs and overheads

Expenditure to support grants

1.–(1) Expenditure (other than expenditure incurred in connection with any other paragraph of this Schedule or any paragraph of Schedule 1) which the authority is obliged to incur as a condition of a specific grant paid to the authority and which is taken into account in determining the amount of such specific grant.

(2) Any amount which the authority is obliged to make available as a condition of grant paid under section 14 of the 2002 Act or under section 484 of the 1998 Act and which is taken into account in determining the amount of such grant, decisions regarding the expenditure of which are delegated to the governing body of a maintained school.

Additional learning needs

2. Subject to paragraphs 3 and 4, expenditure in making the provision specified in a pupil's statement of special educational needs except where the pupil is—

- (a) a registered pupil at a special school maintained by the authority; or
- (b) a registered pupil at a nursery, primary or secondary school maintained by the authority who occupies one of a number of places at that school which are recognised by the authority as being reserved for children with special educational needs.

3. Where a pupil falls within paragraph 2(a) or (b) and the cost of the provision specified in the pupil's statement of special educational needs is significantly greater than the average cost of the provision for the other pupils at the special school or the other pupils occupying the reserved places at the school in question, the amount by which that cost is greater.

4. Expenditure in making the provision specified in a pupil's statement of special educational needs where the pupil falls within paragraph 2(b) but the places which are recognised by the authority as being reserved for children with special educational needs are for such pupils with visual, hearing, speech or

lleferydd neu eu hiaith neu nam cyfathrebu arall.

5. Gwariant mewn perthynas â chefnogaeth arbenigol a roddir i gynorthwyo cyrff llywodraethu ysgolion i fodloni anghenion penodol disgyblion â datganiadau anghenion addysgol arbennig neu sydd o fewn ystod Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy fel y'i disgrifir yn y Cod Ymarfer a ddyroddwyd o dan adran 313 o Ddeddf 1996(1) (sef gwariant na fyddai'n briodol disgwyl iddo gael ei dalu o gyfran yr ysgol o'r gyllideb).

6. Gwariant (sef gwariant na fyddai'n briodol disgwyl iddo gael ei dalu o gyfran yr ysgol o'r gyllideb) at ddibenion sy'n gysylltiedig ag annog—

- (a) cydweithredu rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir i alluogi plant ag anghenion addysgol arbennig i gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir;
- (b) addysg plant ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir; ac
- (c) cael plant ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol gyda phlant nad oes ganddynt anghenion addysgol arbennig.

7. Gwariant mewn perthynas ag addysg heblaw yn yr ysgol o dan adran 19 o Ddeddf 1996 neu mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion fel y'i diffinnir yn yr adran honno.

8. Gwariant a dynnir (heblaw gwariant a dynnir o dan Atodlen 1 neu unrhyw baragraff arall o'r Atodlen hon) ar wasanaethau sy'n ymwneud ag addysg plant ag anawsterau ymddygiad ac ar weithgareddau eraill at ddibenion osgoi gwahardd disgyblion o ysgolion.

